



HM Government



Y Tîm Help Windrush

**A yw Windrush wedi
effeithio arnoch chi neu
eich teulu?**

Os daethoch chi neu eich rhieni i'r Deyrnas Unedig o unrhyw un o wledydd y Gymanwlad cyn 1973, neu os daethoch chi i'r Deyrnas Unedig o unrhyw wlad cyn diwedd 1988, yna fe allwn ni eich helpu i gael dogfennau i ddangos eich statws cyfreithiol.

Gallwn hefyd eich helpu i gael yr iawndal y mae gennych hawl iddo.





HM Government

Nid oes gan rai pobl a wnaeth ymsefydlu yn gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig flynyddoedd yn ôl y dogfennau i ddangos eu hawl cyfreithiol i fyw a gweithio yma.

Mae Tîm Help Windrush yn cefnogi pobl i gael y dogfennau y mae arnyn nhw eu hangen am ddim. Os ydych chi wedi methu cael pethau fel swyddi a gofal iechyd oherwydd na allech chi brofi eich hawl i fyw yn y Deyrnas Unedig, efallai y gallwch chi hawlio iawndal.

Efallai y gallwch gael help os:

- os daethoch chi neu eich rhieni i'r Deyrnas Unedig o unrhyw un o wledydd y Gymanwlad cyn 1973
- os daethoch chi i'r Deyrnas Unedig o unrhyw wlad cyn diwedd 1988

Efallai y bydd rhai wyrion ac aelodau agos o'r teulu hefyd yn gallu hawlio iawndal.

 **Ffoniwch y llinell gymorth am ddim:
0800 678 1925**

 **Ewch i: [GOV.UK/WindrushHelpTeam](https://www.gov.uk/WindrushHelpTeam)**

Bydd popeth y byddwch yn ei ddweud wrthym yn cael ei drin yn sensitif ac ni fydd eich gwybodaeth yn cael ei throsglwyddo ymlaen i'r Adran Orfodi Mewnfudo.